

## Cyngor cyfrinachol am ddim. Pwy bynnag ydych chi.

Rydyn ni'n helpu pobl i oresgyn eu problemau ac yn ymgyrchu ar faterion pwysig pan fydd angen i'w lleisiau gael eu clywed.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn herio gwahaniaethu ac aflonyddu.

Rydyn ni yma i bawb.




© Cyngor Ar Bopeth Hydref 2015

Cyngor Ar Bopeth yw enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor Ar Bopeth.

Rhif cofrestru'r elusen 279057

[citizensadvice.org.uk](http://citizensadvice.org.uk)

# Canfod atebion yn y gwaith: deg awgrym defnyddiol i gyflogwyr



cyngor ar  
bopeth



Co-funded  
by the  
European Union

**1. A wyddoch chi?** Gall Mynediad i Waith helpu gyda chostau gwneud addasiadau i'r gweithlu ar gyfer gweithwyr anabl. Gallant ad-dalu hyd at 80% o gostau cymeradwy hyd at £10,000. Bydd faint y bydd yn rhaid i gyflogwr gyfrannu'n dibynnu ar faint eu busnes, gyda'r cyfraniad uchaf gan Fynediad i Waith ar gyfer busnesau gyda hyd at 9 o gyflogeion.

**2. A wyddoch chi?** Gall cyflogwyr bach hawlio 103% yn ôl ar Dâl Mamolaeth Statudol (SMP). Gellir hawlio 103% o SMP yn ôl os yw'r busnes yn gymwys i gael Gostyngiad i Fusnesau Bach. Hynny yw, busnesau sydd wedi talu £45,000 neu lai mewn Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 yn y flwyddyn dreth gyflawn ddiwethaf cyn yr 'wythnos gymhwys'.

**3. Gall pump y dydd i reolwyr helpu eich busnes i berfformio'n well.** Mae ACAS yn rhoi arweiniad ar sut y gall perfformiad rheoli eich helpu i gael y gorau o'ch staff. Gofynnwch i'ch cyflogeion "Sut allaf fi eich helpu i fod yn fwy llwyddiannus?" Gall hynny eich helpu i gael y gorau o'ch gweithwyr, eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu

gwerthfawrogi ac i gyflawni eu potensial, a gallwch hefyd ystyried unrhyw fater cydraddoldeb y mae angen i chi edrych arno, fel addasiadau i'r gweithle. Wedyn bydd pawb ar eu hennill. [bit.ly/FiveADay](https://bit.ly/FiveADay)

**4. Mae rhagfarn anfwriadol yn y newyddion.** A ydym ni'n barnu pobl wrth eu hil, eu hoed neu eu rhyw heb sylweddoli ein bod yn gwneud hynny? Gallai olygu nad yw cyflogwyr yn recriwtio'r ymgeiswyr gorau am y swydd. Edrychwch sut hwyl ydych chi'n ei gael ar y Prawf Implicit Association sy'n cael ei gymeradwyo gan Brifysgol Harvard. Cewch ragor o awgrymiadau ar sut i osgoi rhagfarn gan sefydliadau fel enei. [bit.ly/UnconsciousBiasTest](https://bit.ly/UnconsciousBiasTest)

**5. A ydych chi am gael gwybodaeth ymarferol werth chweil?** Un lle da ar gyfer adnoddau a gwybodaeth am bopeth yn ymwneud â recriwtio a rheoli cyflogeion yw ACAS. Mae ganddynt help ar-lein, a llinell gymorth, ynghyd â dysgu ar-lein am ddim i helpu rheolwyr a pherchnogion busnes i greu gweithleoedd tecach. [bit.ly/ACASFairerWorkplace](https://bit.ly/ACASFairerWorkplace)

**6. A hoffech chi gael pecyn cymorth ymarferol ardderchog?** Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi creu pecyn cymorth i gyflogwyr sy'n egluro beth i'w wneud os yw cyflogai'n disgwyl babi, gyda thempledi, rhestr wirio a chynllunwyr dyddiadau. [bit.ly/EmployerToolkit](https://bit.ly/EmployerToolkit)

**7. Gall helpu gofalwyr yn y gwaith wneud synnwyr busnes da.** Bydd 1 o bob 9 o'ch cyflogeion yn gofalu am rywun sy'n hŷn, yn anabl neu'n ddifrifol wael. Cewch ddarganfod sut y gallwch gadw gweithwyr medrus yn hytrach na recriwtio ac ailhyfforddi staff newydd. [bit.ly/EmployingCarers](https://bit.ly/EmployingCarers)

**8. Mae 1 o bob 5 cyflogai yn cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith oherwydd straen.** Nid oes yn rhaid i gychwyn sgwrs am iechyd meddwl yn y gwaith fod yn anodd. [bit.ly/TalkingAboutMentalHealth](https://bit.ly/TalkingAboutMentalHealth)

**9. Ychwanegwch becyn cymorth arall at eich adnoddau.** Mae gan Stonewall becyn cymorth sy'n disgrifio pethau syml, cost effeithiol ac sydd am ddim yn y rhan fwyaf o achosion y gall cyflogwyr eu

gwneud i greu diwylliant lle mae pob aelod o staff yn gallu ymddwyn yn naturiol a pherfformio hyd eithaf eu gallu. [bit.ly/InclusiveToolkit](https://bit.ly/InclusiveToolkit)

**10. Rhaid i gyflogwyr gynnal archwiliadau hawl i weithio ar eu cyflogeion.** Mae gan y Swyddfa Gartref arweiniad ymarferol ar sut i osgoi gwahaniaethu anghyfreithlon wrth gynnal yr archwiliadau. [bit.ly/RightToWorkChecks](https://bit.ly/RightToWorkChecks)

Dolenni a gwefannau defnyddiol eraill sy'n rhoi rhagor o wybodaeth:

ACAS: [acas.org.uk](https://acas.org.uk)

EHRC: [equalityhumanrights.com](https://equalityhumanrights.com)

enei: [enei.org.uk](https://enei.org.uk)

Employers for Carers: [employersforcarers.org](https://employersforcarers.org)

Mind: [mind.org.uk](https://mind.org.uk)

Stonewall: [stonewall.org.uk](https://stonewall.org.uk)

Maternity Action: [maternityaction.org.uk](https://maternityaction.org.uk)

Working Families: [workingfamilies.org.uk](https://workingfamilies.org.uk)